**HYSBYSEB R GYFER Y WEFAN A'R WASG**

**Pwyllgor Safonau**
**PENODI AELODAU ANNIBYNNOL**

Ar hyn o bryd mae gan Awdurdod Tân ac Achub De Cymru **un** swydd wag ar gyfer Aelod Annibynnol o'r Pwyllgor Safonau. Mae hwn yn Bwyllgor statudol sy'n chwarae rhan hanfodol wrth gynnal safonau moesegol uchel. Rôl y Pwyllgor yw cynghori, cynorthwyo ac arwain Aelodau wrth fabwysiadu, monitro, gweithredu, gorfodi ac adolygu Codau Ymddygiad lleol amrywiol, yn enwedig y Cod Ymddygiad i Aelodau a chanllawiau moesegol eraill. Ceir manylion llawn Cylch Gorchwyl y Pwyllgor Safonau ar Dudalen 9 o'r ddogfen Cylch Gorchwyl yn y Llyfrgell Cyhoeddiadau ar ein Gwefan

Penodir Aelodau Annibynnol am gyfnod o rhwng pedair a chwe blynedd a gellir eu penodi am dymor olynol pellach o hyd at bedair blynedd. Mae’r Pwyllgor Safonau’n cyfarfod o leiaf ddwywaith y flwyddyn, er efallai y bydd angen i Aelodau Annibynnol sicrhau eu bod ar gael ar gyfer cyfarfodydd heb eu trefnu ymlaen llaw gydag ychydig ddyddiau o rybudd os bydd angen.

Mae'r Pwyllgor Safonau yn cynnwys pum Aelod Annibynnol, a thri Aelod Awdurdod Tân. Mae swyddogaethau Cadeirydd ac Is-gadeirydd yn cael eu hethol o blith Aelodau Annibynnol y Pwyllgor Safonau.

Bydd ymgeiswyr priodol yn gallu arddangos y nodweddion a'r priodoleddau canlynol:

- Bod yn wrandäwr da ac yn chwilfrydig ill dau
- Y gallu i bwyso a mesur tystiolaeth sy'n gwrthdaro a dod i gasgliad effeithiol
- Y gallu i weithio fel rhan o dîm
- Parch at eraill gyda dealltwriaeth o werthoedd moesegol cryf a pharch tuag atynt
- Hygrededd a chymeriad da

Nid yw gwybodaeth fanwl o lywodraethu lleol yn angenrheidiol, er byddai yn fantais pe bai diddordeb gan ymgeiswyr posib mewn materion sy'n ymwneud â bywyd a gwasanaethau cyhoeddus.

Yn ôl y gyfraith, ni all y personau canlynol fod yn Aelod Annibynnol:

- Cynghorydd neu Swyddog mewn swydd (neu briod neu bartneriaid sifil Cynghorydd neu Swyddog) Awdurdod Unedol:
- Awdurdod Tân ac Achub
- Awdurdod parc Cenedlaethol
- Cyngor Cymuned/ Tref
- Cyn Aelodau Awdurdod Tân neu Swyddogion Gwasanaeth Tân ac Achub De Cymru

Gall y Panel Penodi ystyried bod y gallu i siarad Cymraeg yn fantais a gall y Panel gymryd i ystyriaeth yr angen i gyflawni cydbwysedd o ran sgiliau, rhinweddau ac arbenigedd ar y Pwyllgor, yn ogystal â’r angen i gynrychioli’r gymuned fel sefydliad. cyfan a chyflawni amrywiaeth ddaearyddol o ran cynrychiolaeth ar y Pwyllgor.

Ni ddylai Aelod Annibynnol ychwaith fod wedi cael unrhyw gysylltiadau blaenorol sylweddol â'r Gwasanaeth a allai beryglu ei ddidueddrwydd, nac ychwaith gael perthynas agos ag unrhyw Aelod neu Swyddog o'r Gwasanaeth.

Dylai fod gan ymgeiswyr ddigon o amser i'w neilltuo ar gyfer yr apwyntiad a gallu mynychu o leiaf 2 gyfarfod prynhawn/nos y flwyddyn, ynghyd â gwrandawiadau yn ystod y dydd a digwyddiadau hyfforddi. Disgwylir i'r ymgeisydd llwyddiannus fod yn ymroddedig i'r cylchoedd tymor pedair blynedd.

Mae'r Awdurdod yn gyflogwr cyfle cyfartal ac yn ddarparwr gwasanaethau ac mae e'n croesawu ceisiadau gan bob sector o'r gymuned.

Mae gan Aelodau Annibynnol y Pwyllgor Safonau hawl i hawlio'r ffioedd a ganlyn fel Aelodau cyfetholedig:

Cadeirydd - ffi ddyddiol o £268 (4 awr a mwy), (£134 hyd at 4 awr)
Aelod Cyffredin – ffi ddyddiol o £238 (4 awr a mwy), (£119 hyd at 4 awr).

I gael ffurflen gais, mwy o wybodaeth neu sgwrs anffurfiol, cysylltwch â Geraint Thomas, Swyddog Monitro ar 01443 232074 neu drwy law e-bost GB-Thomas@decymru-tan.gov.uk.
Mae rhagor o fanylion am y rôl a ffurflen gais hefyd ar gael yn www.decymru-tan.gov.uk/gweithio-gyda-ni/swyddi -gwag-diweddaraf/.

Y dyddiad cau ar gyfer ceisiadau yw: 12:00 Dydd Gwener yr 8fed o Orffennaf 2022.

Bwriedir cynnal y cyfweliadau prynhawn yr 28ain o Orffennaf 2022

Bydd disgwyl i'r ymgeisydd llwyddiannus ddechrau yn ei swydd o'r 1af o Fedi 2022.